

Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd
a'r Fro, Ysbyty Prifysgol
Llandochoau/

Ward Pine (dadwenwyno cleifion
mewnol)

Dyddiad yr arolygiad: 14 Mawrth
2018

Dyddiad cyhoeddi: 26 Mehefin
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	11
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	15
4.	Beth nesaf?	17
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	18
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	19
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	20
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	21

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad pwyslais penodol dirybudd o uned ddadwenwyno cleifion mewnol Ward Pine yn Ysbyty Prifysgol Llandochoau, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 14 Mawrth 2018.

Cwblhawyd yr arolygiad fel rhan o adolygiad thematig ehangach AGIC o wasanaethau camddefnyddio sylweddau ledled Cymru. Bydd canfyddiadau allweddol o'r arolygiad hwn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad thematig camddefnyddio sylweddau, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ym mis Gorffennaf 2018. Am ragor o wybodaeth am ein hadolygiad camddefnyddio sylweddau, ewch i'n [gwefan](#).

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol iechyd meddwl. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuwyd tystiolaeth gennym yn gyffredinol fod systemau ar waith i gadw cleifion yn ddiogel ac i ddarparu gofal a oedd yn effeithiol.

Gwnaeth y cleifion ddarparu adborth cadarnhaol am eu gofal a gwelsom staff yn trin cleifion gydag urddas a pharch. Roedd amgylchedd y ward yn darparu lle dymunol i gleifion dderbyn triniaeth. Dywedodd cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod gwaharddiad yr ysbyty rhag ysmegu yn broblem sylweddol iddynt, a oedd yn dangos bod angen gwneud gwelliannau yng ngwybodaeth cleifion cyn eu derbyn, a bod angen cysondeb o ran cymhwyso'r polisi ysmegu ar safle'r ysbyty.

Gwelsom fod cynlluniau gofal yn gynhwysfawr ac yn unigol ar gyfer pob claf.

Roedd cleifion yn gallu cael mynediad at raglen therapi gynhwysfawr yn ystod eu harhosiad, yn ogystal ag unrhyw wasanaethau eraill y gallai fod eu hangen arnynt ar gyfer eu gofal.

Gwnaethom nodi fod angen mynd i'r afael â rhai agweddau ar yr amgylchedd a'r gwaith o reoli meddyginiaeth.

Canfuom fod y tîm staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, bod ganddynt strwythur rheoli clir ar waith a'u bod yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y cleifion inni siarad â nhw eu bod yn cael cyfleoedd i drafod eu gofal a bod staff wedi bod yn garedig tuag atynt
- Roedd amgylchedd y ward wedi'i adeiladu'n bwrpasol, gyda chyfleusterau eang a oedd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, a darpariaeth neilltuedig a hygyrch.
- Gwelsom fod ymdrechion wedi cael eu gwneud i lunio cynlluniau gofal ysgrifenedig unigol ar gyfer pob claf

- Canfuwyd gwaith tîm amlddisgyblaeth effeithiol gennym. Roedd y tîm staff yn ymddangos yn gyfeillgar a chanfuwyd dull cynhwysol o reoli'r gwasanaeth gennym

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwybodaeth cleifion am ysmegu a chysondeb wrth gymhwyso'r polisi ysmegu ar safle'r ysbyty
- Rhai agweddau o'r amgylchedd, gan gynnwys rheoli'r tymheredd yn ystafelloedd gwely a swyddfa'r ward, ac mae angen gwaith cynnal a chadw ar lolfa'r cleifion
- Rhai agweddau o storio meddyginiaethau, gan gynnwys glanweithdra yn yr ystafell driniaeth a'r fferyllfa a gwaith dosbarthu prydlon o feddyginiaeth bersonol cleifion ar ôl eu rhyddhau
- Ystyried addasrwydd a chynaliadwyedd gofalu am gleifion a chanddynt niwed i'r ymennydd yn sgil alcohol am gyfnodau hwy o amser ar Ward Pine
- Trefniadau i ddarparu gwybodaeth a dysgu mewn modd ffurfiol a chyson i bob aelod o staff sy'n gweithio ar y ward

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ward Pine wedi'i lleoli yn Hafan y Coed, uned iechyd meddwl newydd i oedolion yn Ysbyty Prifysgol Llandochau, a agorodd ym mis Mawrth 2016.

Mae Ward Pine yn darparu uned driniaeth cleifion mewnol arbenigol i bobl a chanddynt broblemau camddefnyddio sylweddau. Mae'r ward hefyd yn darparu rhaglenni triniaeth ar gyfer cleifion allanol.

Mae Ward Pine yn derbyn cleifion a gaiff eu hatgyfeirio o ardaloedd amrywiol ledled Cymru, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf, Powys a Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Mae 12 ystafell wely unigol ar yr uned ar gyfer cleifion gwrywaidd a benywaidd. Mae hyd y cyfnod aros ar y ward yn dibynnu ar becyn triniaeth cytunedig y cleifion, ond mae fel arfer yn para pythefnos.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Canfuwyd gennym fod trefniadau ar waith i gynorthwyo cleifion i wella eu hiechyd a'u llesiant.

Dywedodd cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt gyfleoedd i drafod eu gofal, a bod staff wedi bod yn garedig â nhw.

Gwelsom staff yn trin cleifion â pharch, ac roedd trefniadau ar waith i amddiffyn preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd amgylchedd y ward yn darparu lle dymunol i gleifion dderbyn triniaeth.

Dywedodd cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod gwaharddiad yr ysbyty rhag ysmegu yn broblem sylweddol iddynt, a oedd yn dangos bod angen gwneud gwelliannau yng ngwybodaeth cleifion cyn eu derbyn, a bod angen cysondeb o ran cymhwyso'r polisi ysmegu ar safle'r ysbyty.

Gwnaethom siarad â chleifion ar y ward a oedd yn canmol y gofal gan staff, a gwnaethom arsylwi ar staff yn trin cleifion ag urddas a pharch.

Dywedodd un claf wrthym ei fod "wedi diflasu ac yn barod i ddechrau therapi" ond bod yn rhaid iddo aros tan y diwrnod canlynol er mwyn dechrau ar y rhaglen therapi, ar ôl cael ei dderbyn. Gwnaethom gynghori y dylai'r bwrdd iechyd annog ymwybyddiaeth gynyddol, yn unigol, o'r pwynt lle bydd cleifion yn barod i ddechrau eu rhaglen therapiwtig ddyddiol er mwyn galluogi'r budd gorau i gleifion.

Mae gan gleifion ystafelloedd mawr unigol gyda chyfleusterau en-suite. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn hoffi eu hystafelloedd. Mae'r ward yn fawr ac yn eang a chanddi nifer o ystafelloedd triniaeth a lolfeydd, sy'n galluogi'r gwaith o ddarparu cyfleusterau un ryw a chyfleusterau i gleifion weld eu hymwelwyr.

Roedd gan yr uned deras mawr y tu allan, y gallai cleifion gael mynediad ato o'r uned. Fodd bynnag, ni chaniatawyd i gleifion ysmegu y tu allan oherwydd polisi ysmegu ehangach yr ysbyty. Dywedodd rhai cleifion wrthym nad oeddent wedi cael eu gwneud yn llwyr ymwybodol ynghylch y polisi ysmegu a'r ffordd y byddai hyn yn effeithio arnynt yn ystod eu triniaeth. Yn ôl pob tebyg, roedd hyn yn achosi gorbryder sylweddol i gleifion. Dywedodd cleifion wrthym hefyd am yr annhegwch cydnabyddedig o gymhwysiad y polisi hwn, am eu bod yn ymwybodol bod pobl yn ysmegu yn union y tu allan i brif fynedfa uned Hafan y Coed.

Er bod cleifion yn gallu defnyddio dewisiadau eraill i nicotin yn y ward, roedd yn amlwg bod y ffaith nad oeddent yn gallu ysmegu yn broblem sylweddol i'r cleifion a oedd yn y mynd trwy ddadwenwyno. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom un claf a oedd wedi gadael y ward oherwydd nad oedd gan yr hawl i ysmegu yno. Gwnaethom gynghori'r bwrdd iechyd i fonitro sut mae'r broblem hon yn effeithio ar raddfeydd cwblhau'r driniaeth.

Gwelsom fod gwybodaeth ar gael i gleifion er mwyn eu helpu i ofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, gan gynnwys amrediad cynhwysfawr o gyngor a gwybodaeth a oedd wedi'u hargraffu ac ar gael ledled y ward. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth hybu iechyd, eiriolaeth, cyngor ar leihau niwed a gwasanaethau cymorth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion arfaethedig yn cael pob cyfle i gael dealltwriaeth glir o gwmpas polisi ysmegu'r ysbyty, ynghyd â goblygiadau contract y ward (sy'n mynnu bod cleifion yn aros ar y ward yn ystod eu triniaeth oni bai y cânt eu goruchwylio gan staff) a sut bydd hyn yn effeithio ar eu gallu i ysmegu (pe baent yn dymuno gwneud hynny).

Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfio o ran y polisi ysmegu sydd i'w weld y tu allan i uned Hafan y Coed, i gael gwared ar yr annhegwch cydnabyddedig o gymhwysiad y polisi y mae rhai cleifion ar Ward Pine yn ei brofi.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom dystiolaeth fod y gofal ar Ward Pine yn ddiogel ac yn effeithiol.

Roedd y gwaith o gynllunio gofal yn gynhwysfawr ac yn unigoledig. Roedd cleifion yn gallu cael mynediad at raglen therapi gynhwysfawr yn ystod eu harhosiad, yn ogystal ag unrhyw wasanaethau eraill y gallai fod eu hangen arnynt ar gyfer eu gofal, gan gynnwys ffisiotherapi.

Gwnaethom nodi rhai agweddau ar yr amgylchedd a'r gwaith o reoli meddyginiaethau yr oedd angen rhoi sylw iddynt.

Gwnaethom arsylwi ar dîm staff a oedd yn agored, yn gyfeillgar ac yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd y ward wedi'i hadeiladu'n bwrpasol fel rhan o uned newydd Hafan y Coed. Yn gyffredinol, roedd yr amgylchedd yn gadarnhaol ac yn eang iawn. Roedd y ward yn lân ac yn daclus drwyddi draw, ac roedd hygyrchedd da i ddiwallu anghenion cleifion.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi'r meysydd canlynol i'w gwella mewn perthynas ag amgylchedd y ward:

- Roedd y gwaith o reoleiddio tymheredd ar y ward yn anghyson. Roedd ystafelloedd gwely 1, 2 a 3 yn oer, gan gynnwys yr ystafell wely neilltuedig y gellid cael mynediad ati, tra bo swyddfa'r ward i'w gweld yn anghyfforddus o gynnes.
- Gwelwyd bod dillad gwely brwnt ar lawr y golchdy, ac nid oedd basged dillad gwely ar gael i storio'r dillad gwely brwnt.
- Roedd y ward yn ddarostyngedig i ddiweddariad pwyntiau clymu, ond gwelsom fod nifer o bwyntiau clymu yn dal i fod mewn ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi. Rhoddwyd sicrwydd i ni gan staff fod

hyn wedi'i nodi, ac mae'r ward yn mynd i'r afael â'r mater ar hyn o bryd, o dan adolygiad pwyntiau clymu parhaus

- Roedd tystiolaeth bod gollyngiad dŵr sylweddol yn un o lolfeydd y cleifion. Dywedwyd wrthym fod yr adran cynnal a chadw wedi'i hysbysu o hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sylw i'r meysydd canlynol mewn perthynas ag amgylchedd y ward:

- Mynd i'r afael â'r gwaith o reoleiddio'r tymheredd ar y ward, yn benodol yn ystafelloedd gwely 1-3 a swyddfa'r ward
- Sicrhau bod man priodol ar gyfer storio dillad gwely brwnt wrth aros am eu golchi
- Parhau â'r rhaglen o adolygu pwyntiau clymu
- Parhau â'r gwaith cynnal a chadw arfaethedig ar y gollyngiad dŵr yn lolfa'r cleifion i sicrhau yr eid i'r afael â hyn yn briodol

Caiff cleifion eu derbyn i'r uned ar ddydd Llun a dydd Mawrth bob wythnos am arhosiad o bythefnos fel arfer, yn dibynnu ar yr hyn y cytunwyd arno yn eu cynllun triniaeth. Gwelsom fod lefel uchel a chyson o rannu arsylwadau a gwybodaeth rhwng staff, gan roi darlun clir, manwl a chyfredol o anghenion y cleifion yn ystod eu harhosiad ar y ward.

Mae rhaglen gynhwysfawr o therapiau ar gael, a ddarperir yn ddyddiol gan dîm staff ymroddedig, sy'n annog rhyngweithio ac ymgysylltiad gan gleifion. Roedd staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig iawn am y rhaglen, ac roeddent yn meddwl yn ofalus am y ffyrdd y gallent barhau i gyfoethogi profiadau'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod y rhaglenni therapi yn dechrau ar ddydd lau er mwyn rhoi amser i gleifion ddadwenwyno ar ôl eu derbyn ar ddechrau'r wythnos. Roedd y rhaglen driniaeth wedi'i theilwra i hyd cyfnod aros cynlluniedig y cleifion ar y ward. Oherwydd trefniadau â Bwrdd Cynllunio Ardal Cwm Taf yn y gorffennol, dywedwyd wrthym fod cleifion o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf fel arfer yn aros ar y ward am gyfnod o wythnos. Byddwn yn ystyried y trefniadau hyn o fewn adroddiad thematig camddefnyddio sylweddau ehangach AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom sylwi fod cleifion a chanddynt niwed ar yr ymennydd yn sgil alcohol, a oedd yn effeithio ar eu cof a'u gallu meddyliol.

Dyweddodd staff wrthym fod y cleifion hyn wedi bod ar y ward am sawl mis oherwydd anawsterau o ran dod o hyd i leoliad hirdymor addas ar eu cyfer. Er ei bod yn amlwg bod staff yn darparu gofal diogel i'r cleifion hyn, gwnaethom argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ystyried ai'r uned ddadwenwyno yw'r amgylchedd mwyaf addas ar eu cyfer, yn ogystal â'r ddarpariaeth ar gyfer cleifion a chanddynt niwed ar yr ymennydd yn sgil alcohol sydd wedi cwblhau dadwenwyno ac sydd angen cymorth mwy hirdymor arnynt.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried addasrwydd a chynaliadwyedd y gwaith o ofalu am gleifion a chanddynt niwed ar yr ymennydd yn sgil alcohol am gyfnod hwy ar Ward Pine. Rhaid i'r adolygiad hwn gynnwys strategaethau ar gyfer trefniadau rhyddhau amserol ar gyfer y grŵp hwn o gleifion, er mwyn sicrhau nad yw'n lleihau gallu'r ward i dderbyn cleifion eraill sydd angen eu dadwenwyno.

Yn gyffredinol, roedd y gwaith o reoli meddyginiaethau yn cael ei gwblhau'n effeithiol ac i safon uchel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella:

- Nodwyd bod angen rhoi sylw i lanweithdra yn yr ystafell driniaeth a'r fferyllfa, oherwydd gwelsom lwch mewn rhai ardaloedd a sblashis anhysbys o hylif ar rai o'r waliau
- Gwnaethom sylwi nad oedd yr oergelloedd meddyginiaethau yn yr ystafelloedd triniaeth a'r fferyllfeydd wedi'u cloi. Aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad, a gwnaethom atgoffa'r bwrdd iechyd i sicrhau bod staff yn cadw'r oergelloedd hyn dan glo, yn unol â Hysbysiad Diogelwch Cleifion PSN015
- Roedd meddyginiaethau dau glaf a oedd wedi'u rhyddhau o'r ward wedi'u gadael yn un o'r oergelloedd – un o dderbyniad diweddar ac un o dderbyniad ym mis Ionawr 2018. Cafwyd gwared ar y rhain a'u taflu yn ystod yr arolygiad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwaith rheoli gweithredol a pharhaus mewn perthynas â safon glanweithdra o fewn yr ardaloedd clinigol, a gwaith dosbarthu prydlon o feddyginiaethau personol cleifion ar ôl eu rhyddhau o'r ward.

Roedd system cofnod electronig y cleifion yn fanwl, cynhwysfawr ac yn hawdd ei defnyddio. Roedd cynlluniau gofal yn gynhwysfawr, yn unigoleddig ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd asesiadau perthnasol, gan gynnwys risg, yn bresennol ac roedd tystiolaeth o atgyfeirio at arbenigeddau eraill, er enghraifft; deietegydd, camau (gwasanaeth cymorth adfer) a ffisiotherapi o'r pwynt derbyn. Roedd mynediad at wasanaethau deintyddol o fewn yr ysbyty'n cael ei annog a'i hwyluso. Roedd cleifion yn cael eu hatgyfeirio at ffisiotherapi pe bai angen, ac roedd y cyswllt hwn yn parhau ar ôl eu rhyddhau.

Roedd tystiolaeth o gyfathrebu da yng nghofnodion cleifion, rhwng y timau cymunedol a'r staff yn yr uned cleifion mewnol, mewn perthynas ag opsiynau triniaeth a chanlyniadau cytunedig. Roedd tystiolaeth o ymgysylltiad gweithredol â gwasanaethau ôl-ofal yn ystod y cyfnod derbyn ac ar ôl eu rhyddhau.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Canfuom fod y gwaith rheoli ar y ward yn ddiogel ac yn effeithiol. Gwelwyd bod tîm y ward yn cydweithio'n dda, a bod staff yn gwrando ac yn dangos ymagwedd barchus tuag at ei gilydd. Roedd strwythur rheoli clir ar waith ar y ward, gyda llinellau clir o adrodd ac atebolrwydd.

Dyweddodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod ganddynt lawer o gymorth gan eu rheolwyr, a bod rheolwr y ward a'r dirprwy reolwr yn hawdd mynd atynt.

Dyweddodd staff wrthym eu bod yn gyfredol o ran eu hyfforddiant gorfodol a'u bod yn gallu gwneud cais am hyfforddiant perthnasol arall.

Yn ôl pob golwg, roedd system effeithiol ar waith i rannu dysgu ar draws yr uned iechyd meddwl a'r gyfarwyddiaeth ehangach, gyda rheolwyr y wardiau. Fodd bynnag, awgrymodd staff y gwnaethom siarad â nhw ei bod yn llai clir sut roedd dysgu a gwybodaeth yn cael eu trosglwyddo i dîm y ward mewn modd cyson. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn digwydd, ond oherwydd maint a'r newid mewn patrymau'r tîm staff, nid oedd gan bob aelod o staff gyfle i fynychu cyfarfodydd yn rheolaidd.

Caiff aciwtedd y grŵp cleifion ei adolygu'n rheolaidd, a chaiff lefelau staff eu haddasu yn ôl yr angen. Dywedwyd wrthym fod y ward wedi nodi pwysau baich gwaith ar ddechrau'r wythnos (dydd Llun a dydd Mawrth) pan fydd derbyn a rhyddhau cleifion yn digwydd, sy'n golygu bod gweithgarwch yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwn. Er bod niferoedd digonol o staff yn bresennol yn ystod y dydd, gwelwyd bod y baich gwaith uwch hwn yn parhau yn ystod sifftiau'r nos ar ddechrau'r wythnos. O ganlyniad, dywedwyd wrthym fod y ward wedi cyflwyno rhagor o staff ar y sifftiau nos gyda'r hwyr yn ystod y cyfnod hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried trefniadau addas i ddsbarthu gwybodaeth a dysgu mewn modd ffurfiol a chyson i'r holl staff sy'n gweithio ar y ward.

Dylai'r bwrdd iechyd barhau i adolygu'r lefelau staffio ar ddechrau'r wythnos, pan fydd y ward yn derbyn ac yn rhyddhau cleifion, oherwydd y cynnydd yn y baich gwaith sy'n parhau i'r nos.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Mae amrywiaeth o ddulliau ar gael inni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad trylwyr o ward sengl: rydym yn cynnal arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o nifer o wardiau: rydym yn ymweld â nifer o wardiau ac adrannau o fewn un safle ysbyty i nodi problemau neu themâu mae'n bosibl eu bod yn berthnasol i'r holl ysbyty
- Arolygiad o nifer o ysbytai: rydym yn ymweld â nifer o ysbytai o fewn yr un bwrdd iechyd i asesu'r gwaith o lywodraethu a darparu gwasanaethau cyfan

Fel arfer, mae ein harolygiadau o ysbytai yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae ysbytai'n bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwnaethom nodi nad oedd yr oergelloedd meddyginiaethau yn yr ystafelloedd triniaeth a'r fferyllfeydd dan glo.	Roedd risg bosibl o bobl heb eu hawdurdodi yn cael mynediad at feddyginiaeth.	Gwnaethom leisio ein pryderon ag uwch staff y ward yn ystod yr arolygiad.	Sicrhaodd staff y ward ar unwaith fod yr oergelloedd meddyginiaethau dan glo.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Ysbyty: Ysbyty Athrofaol Llandochau

Ward/adran: Ward Pine – Dadwenwyno Cleifion Mewnol

Dyddiad yr arolygiad: 14 Mawrth 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dim materion sicrwydd dybryd				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty Athrofaol Llandochau

Ward/adran: Ward Pine – Dadwenwyno Cleifion Mewnol

Dyddiad yr arolygiad: 14 Mawrth 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
<p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan ddarparu gleifion bob cyfle posib i ennill dealltwriaeth glir o gwmpas polisi dim smygu'r ysbyty ynghyd â goblygiadau contract y ward (sy'n gofyn bod cleifion yn aros ar y ward yn ystod eu triniaeth oni bai fod staff yn eu goruchwylio) a sut y bydd hyn yn effeithio ar eu gallu i smygu (os ydynt yn dymuno gwneud hynny).</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â diffyg cydymffurfiaeth â'r polisi smygu sy'n weladwy y tu allan i Uned Hafan y Coed, i ddiddymu unrhyw annhegwch canfyddedig wrth</p>	<p>1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd</p> <p>4.2 Gwybodaeth i gleifion</p> <p>3.2 Cyfathrebu'n effeithiol</p>	<p>Mae gwybodaeth sy'n ymwneud â safle cyfan yr ysbyty yn cefnogi dim smygu bellach wedi'i chynnwys mewn llythyrau apwyntiadau i gleifion. Mae hyn yn cynnwys eglurhad na all y staff hwyluso cyfnodau ymadael â chymorth o'r ysbyty at ddiben smygu yn unig. Cynigir Therapi Disodli Nicotin a gall cleifion ddefnyddio e-sigarennau yn ward yr ardd.</p> <p>Nid oes unrhyw arwyddion Dim Smygu</p>	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei ymgorffori fel rhan o arfer arferol

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
weithredu'r polisi y mae rhai o'r cleifion ar Ward Pine yn ei brofi.		<p>mewn ardaloedd gweledol o amgylch Ysbyty Athrofaol Llandochau gan gynnwys y tu allan i Hafan y Coed.</p> <p>Mae safle Ysbyty Athrofaol Llandochau'n destun Deddf Iechyd Cyhoeddus a Llesiant, fodd bynnag, nes i hyn fod yn gyfraith, nid oes modd gorfodi'r rheol dim smygu ar safle ysbyty gyda hysbysiad cosb benodedig.</p> <p>O'r wythnos sy'n dechrau ar 21 Mai 2018, bydd swyddog gorfodi Dim Smygu a Dim Gwastraff ar safle Ysbyty Athrofaol Llandochau am ddiwrnod yr wythnos a fydd yn gallu herio unrhyw un mae'n ei weld yn smygu ar safle'r ysbyty.</p>	Cyfarwyddwr Gweithrediadau	I'w adolygu ym mis Medi 2018
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sylw i'r meysydd canlynol ynghylch amgylchedd y ward:	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch			

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> • Mynd i'r afael â rheoli tymheredd y ward, yn benodol ystafelloedd 1-3 a swyddfa'r ward • Storio dillad brwnt mewn ffordd briodol wrth iddynt aros i gael ei olchi • Parhau gyda'r rhaglen o adolygu pwyntiau clymu • Parhau gyda gwaith cynnal a chadw cynlluniedig y gollyngiad dŵr yn ardal lolfa'r cleifion i sicrhau yr eir i'r afael â hyn yn brydlon. 		<p>Mae'r tîm ystadau wedi datrys y broblem Caiff tymheredd y ward ei monitro yn unol â'r weithdrefn cysur thermol. Os bydd yr ystafelloedd yn rhy dwym neu'n rhy oer, yna ymgymerir ag asesiad risg a bydd camau gweithredu'n cael eu cymryd yn unol â'r weithdrefn hon.</p> <p>Cafodd ei ddatrys ar ddiwrnod yr arolygiad</p> <p>Y gyfarwyddiaeth i barhau i adolygu asesiadau pwyntiau clymu a bydd yn adrodd ac yn monitro drwy drefniadau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Bwrdd Clinigol.</p> <p>Trwsiyd y gollyngiad dŵr</p>	<p>Yr adran ystadau Rheolwr y ward</p> <p>Rheolwr y ward</p> <p>Rheolwr y gyfarwyddiaeth</p> <p>Yr adran ystadau</p>	<p>Wedi'i gwblhau Adolygu bob mis</p> <p>Wedi'i gwblhau Adolygiad Awst 2018</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rheolaeth weithredol a pharhaus ar waith ynghylch safon hylendid yn yr ardaloedd clinigol ac annog dosbarthu meddyginiaeth bersonol cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.</p>	<p>2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio</p> <p>2.6 Rheoli meddyginiaethau</p>	<p>Mae system i wirio glanweithdra'r ystafell driniaeth wedi'i rhoi ar waith</p> <p>Datryswyd y materion ynghylch dosbarthu meddyginiaeth bersonol cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad</p>	<p>Rheolwr y ward</p> <p>Rheolwr y ward</p>	<p>Wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei ymgorffori fel rhan o arfer arferol</p> <p>Wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei ymgorffori fel rhan o arfer arferol</p>
<p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried addasrwydd a chynaliadwyedd gofalu am gleifion gyda Niwed i'r Ymennydd oherwydd Alcohol am arosiadau hwy ar Ward Pine. Mae'n rhaid i'r adolygiad hwn gynnwys strategaethau ar gyfer trefniadau rhyddhau amserol ar gyfer y grŵp hwn o gleifion i sicrhau nad yw'n lleihau gallu'r ward i dderbyn cleifion eraill y mae angen iddynt ddadwenwyno.</p>	<p>3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol</p>	<p>Mae'r garfan hon o gleifion, sy'n cynyddu mewn niferoedd, yn parhau i fod ar gofrestr risg y Bwrdd Cynllunio Ardal. Chwilir am leoliadau arbenigol ac unwaith y cânt eu nodi, cytunir ar ddull ariannu a chaiff cleifion eu symud i amgylchedd mwy priodol.</p> <p>Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro gofal cleifion y mae eu gofal wedi'i oedi wrth aros am leoliadau o'r fath a'r effaith</p>	<p>Cyfarwyddwr Gweithrediadau</p>	<p>I'w adolygu ym mis Medi 2018</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		mae hyn yn ei chael o ran gallu i dderbyn cleifion eraill.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried trefniadau addas i ledaenu gwybodaeth a dysgu mewn ffordd ffurfiol a chyson i'r holl staff sy'n gweithio ar y ward.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Cynhelir cyfarfodydd staff bob pedair wythnos ac mae dyddiadau ar eu cyfer yn cael eu cadarnhau ar gyfer y chwe mis nesaf. Cymerir cofnodion a chânt eu rhoi yn swyddfa'r ward a'r ystafell staff.	Rheolwr y ward	Wedi'i gwblhau
Dylai'r bwrdd iechyd barhau i adolygu'r lefelau staffio ar ddechrau'r wythnos, lle derbynnir a rhyddheir cleifion, oherwydd y llwyth gwaith mwy sy'n parhau gyda'r nos.	7.1 Gweithlu	Yr uwch-nyrs a rheolwr y gyfarwyddiaeth i fonitro sefydliad a llwyth gwaith nyrsys.	Uwch-nyrs/Rheolwr y gyfarwyddiaeth	I'w adolygu ym mis Medi 2018

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Jayne Tottle,

Swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio, Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl

Dyddiad: 17 Mai 2018